



Cronfa Profi'r Celfyddydau Ewch i Weld

Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau
Chwefror 2020



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**



Cynnwys

Cynnau'r ysfa...	3
Menter sy'n dod o bolisi	3
Ewch i Weld: gweithgarwch celfyddydol o safon	3
Am beth fyddwn ni'n ei dalu?	3
Sut i ymgeisio	4
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	5
Dysgu o'r hyn sy'n digwydd	5
Cael gwybod rhagor	5
Cynghorion am ymgeisio i Ewch i Weld	6



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Cynnau'r ysfa

Gall profi'r celfyddydau fod yn ysbrydoliaeth, yn her ac yn hwyl, ac mae gan y celfyddydau ran bwysig i'w chwarae ym mhrofiad dysgu ein pobl ifanc ledled Cymru.

Rydym ni'n credu dylai ein plant a'n pobl ifanc gael eu hysbrydoli a'u cyffroi gan y gorau sydd gan gelfyddydau Cymru i'w gynneg. Felly, fel rhan o ***Ddysgu creadigol drwy'r celfyddydau*** a ariennir ar y cyd gan Gyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru, mae Profi'r Celfyddydau'n anelu at roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant fel rhan o'u haddysg.

Mae Cronfa Profi'r Celfyddydau yn annog ysgolion i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynd cam ymhellach wrth archwilio profiadau diwylliannol a chelfyddydol. Bydd selogion y celfyddydau'n aml yn cyfeirio at brofiad penodol yn eu plentyndod o gael eu cyffroi gan y celfyddydau.

Menter sy'n dod o bolisi

Mae Profi'r Celfyddydau yn un o'r ymrwymadau yn y rhaglen ***Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau***. Lanswyd ef ym Mawrth 2016 i gyflawni un o brif feysydd y cynllun gweithredu, **Cynnig y Celfyddydau ac Addysg i Gymru gyfan**.

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i benderfynu a yw **Ewch i Weld** yn iawn ichi. Mae hefyd yn esbonio a yw'r prosiect rydych chi'n meddwl amdano'n rhywbeth y gallwn ni ei ariannu. Hefyd rydym ni'n dweud wrthyh sut i ymgeisio am arian.

Ewch i Weld - gweithgarwch celfyddydol o safon

Mae Ewch i Weld yn gynllun syml sy'n cynnig arian i dalu am ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol o safon. Gall ysgolion ymgeisio am grantiau bach, untro o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol o safon mewn lleoliadau ledled Cymru. Gallai profiadau Ewch i Weld gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd, neu ymweliadau â gweithwyr celfyddydol sy'n datblygu a chreu gwaith.

Mae Ewch i Weld yn tyfu yn ei boblogrwydd ac mae llawer o ysgolion a disgyblion eisoes yn elwa ar y celfyddydau a diwylliant y tu allan i'r ysgol. Gallwch ddarllen am rai o'r profiadau. Ewch i Weld ar ein gwefan [yma](#).

Am beth fyddwn ni'n ei dalu?

Mae gan bawb syniadau da a syniadau gwahanol. Felly nid ydym ni am ddisgrifio'n rhy fanwl beth y byddwn ni'n ei ariannu. Y peth pwysig yw bod eich cais yn dangos sut mae'r gweithgarwch yn cyfrannu at y dysgu a chynnig rhywbeth newydd i ysgogi'r disgyblion. Rydym ni'n chwilio am brosiectau fydd yn gwneud gwahaniaeth.

Rydym ni'n barod i ystyried:

- Costau llogi bysus neu drafnidiaeth gyhoeddus cludiant rhataf.
- Costau tocynnau. Rydym ni'n disgwyl ichi gymryd mantais o ostyngiadau a bwcio bloc lle mae'r rhain ar gael.

- Costau gweithdai. Rhaid i'r lleoliad eu cynnal yn ystod yr ymweliad. Mae Ewch i Weld yn agored i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Nid ydym ni'n gallu talu ar wariant cyfalaf/prynu offer.
- Rydym ni'n gallu rhoi hyd at **90% o'r arian** ar gyfer cynigion cymeradwy, a gall arian cyfatebol fod yn gymysgedd o arian parod a chymorth mewn nwyddau.
- Ni allwn ni ariannu gweithgareddau sydd eisoes wedi'u hamserlennu ac sydd mewn cyllidebau'n barod.
- Ni allwn ni ariannu gweithgareddu neu perfformiadau yn yr ysgol.
- Yn olaf, nid ydym ni yn gallu rhoi arian i fynd i weld lleoliadau neu ddigwyddiadau sydd y tu allan i Gymru.

Rydym ni'n gwybod bod gan wahanol ysgolion wahanol her sydd yn eu hwynebu er enghraifft:

- bod mewn ardal o anfantais economaidd
- bod mewn ardaloedd gwledig
- bod rhywle lle mae cludiant cyhoeddus yn wael
- bod yn Ysgol Gymraeg mewn ardal â diffyg digwyddiadau yn y Gymraeg

Felly byddwn ni'n ystyried eich cais yn ofalus.

Dim ond prosiectau newydd ac ychwanegol

i'ch gweithgareddau arferol y gallwn ni eu hariannu. Ni allwn ni ariannu:

- dysgu craidd
- prosiectau sydd eisoes yn digwydd
- prosiectau sy'n mynd rhagddynt beth bynnag, gyda (neu heb) ein harian

Rhaid iddo fod yn weithgarwch newydd. Mae'r egwyddor o gynnig rhywbeth ychwanegol yn bwysig iawn.

Sut i ymgeisio

Dim ond ysgolion sy'n gallu ymgeisio i **Ewch i Weld**. Bydd angen ichi lenwi ffurflen gais gan ddefnyddio ein proses ymgeisio ar-lein. Gallwch chi ei gweld ar ein gwefan [yma](#).

Wrth ymgeisio, dyma'r math o wybodaeth y gofynnwn ni amdani:

- Amlinelliad o'r gweithgarwch rydych chi am inni ei ariannu;
- Cyfanswm cost y prosiect a faint o grant rydych chi'n ymgeisio amdano;
- Sut byddwch chi'n rhoi arian sy'n cyfateb ag o leiaf 10% o gyfanswm cost y prosiect;
- Gwybodaeth am grŵp y bobl ifanc a fydd yn elwa ar eich prosiect (gan gynnwys oedran y disgyblion);
- Gwybodaeth a data am y canlyniadau rydych chi'n disgwyl eu cyflawni (er enghraifft, faint o blant fydd yn elwa);

- Crynodeb o'r effaith arfaethedig a sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at hyn;
- Disgrifiad o'ch ysgol;
- Esboniad o sut mae eich gweithgarwch yn ychwanegol at eich gweithgareddau creadigol arferol.

Rhaid ichi hefyd roi'r manylion cyswllt inni am y sefydliad a'r unigolyn yn y sefydliad a fydd yn arwain y prosiect.

Rydym ni'n awyddus i gael ceisiadau sy'n cynnwys ysgolion nad ydynt eto wedi cael arian Dysgu creadigol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

Nid oes dyddiad cau i **Ewch i Weld**. Gallwch chi ymgeisio am arian ar unrhyw adeg. Fel arfer byddwch yn clywed mewn 3 wythnos waith os yw'ch cais wedi llwyddo ai peidio. Felly cyflwynwch eich cais mewn da bryd cyn eich digwyddiad. Rhaid ichi ei gyflwyno o leiaf 4 wythnos waith cyn eich digwyddiad inni allu prosesu eich grant.

Dysgu o'r hyn sy'n digwydd

Fel gyda phob prosiect sy'n cael arian cyhoeddus, mae'n bwysig ein bod yn monitro a gwerthuso'r hyn sy'n digwydd. Mae'n help inni wneud yn siŵr bod prosiectau sy'n cael arian yn digwydd. Ond yr un mor bwysig yw dysgu sut mae prosiectau'n dod â'r celfyddydau a diwylliant ac addysg at ei gilydd i wella dysgu creadigol.

Rydym ni am i'r rhaglen gael gwaddol. Felly ar ddiwedd eich prosiect, byddwn ni'n gofyn ichi roi inni adroddiad byr ar eich gweithgaredd a nodi a oedd eich canlyniadau wedi'u gwireddu. Byddwn ni'n rhoi templed ichi i wneud hyn. Cynhwyswch hefyd, os gallwch, adolygiadau a/neu ddyfyniadau gan eich disgyblion.

Cael gwybod rhagor

Mae ymgeisio'n cymryd amser ac ymdrech. Rydym ni yma i'ch helpu. Os ydych chi'n meddwl ymgeisio am Brofi'r Celfyddydau, byddwn ni'n hapus ichi gysylltu â ni i drafod eich cynnig. E-bostiwch ni: dysgu.creadigol@celf.cymru

Cynghorion am ymgeisio i Ewch i Weld

- Os cawsoch chi arian oddi wrthym o'r blaen, gwnewch yn siŵr eich bod wedi dychwelyd ffurflen werthuso fel y gallwn ni gau'r grant yna. Ni allwn ni roi rhagor o arian ichi nes ein bod wedi cau'r hen grant.
- Mae'r rhaglen wedi'i chlustnodi ar gyfer plant oedran ysgol sy'n dechrau o'r meithrin hyd at 16 oed. Ni allwn ni ariannu addysg ôl-16, gan gynnwys colegau addysg bellach a'r chweched dosbarth.
- Proses gystadleuol ydyw felly rhoddwn ni flaenoriaeth i ysgolion nad ydynt eto wedi cael arian dysgu creadigol drwy'r celfyddydau.
- Ni allwn ni dalu am wariant cyfalaf, er enghraifft, prynu offer.
- Nodwch union ddyddiad y daith.
- Gwnewch ffocws eich taith ar brofi'r celfyddydau yn glir.
- Rhaid i weithgarwch ddigwydd mewn lleoliadau celfyddydol ac nid mewn ysgol.
- Rhaid ichi beidio ag ymgeisio am grant sy'n fwy na 90% o gyfanswm costau'r daith. Nodwch sut y byddwch chi'n cwrdd â'r gofyniad i ddarparu arian cyfatebol o 10%.
- Nid ydym ni'n gallu ariannu gweithgarwch rydych chi eisoes wedi'i archebu.